cwlwm cyhoeddwyr cymru

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennwn atoch mewn braw fod toriad arfaethedig o 10.5% yn wynebu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae hyn yn dod ar ôl degawd ble blu toriad o 37% yn nhermau real.

Mae'r toriad yma yn fygythiad dybryd i gyhoeddi yng Nghymru. Eisoes mae'r pwysau ar weisg yn anghynialadwy gyda staff yn llosgi allan dan y pwysau gwaith gyda chyn lleied o gyllid a staff.

Erfyniwn arnoch i leoli'r sector gyhoeddi Cymraeg dan yr un amddiffyniad a mudiadau Cymraeg eraill fel yr Urdd, Canolfannau Cymraeg i Oedolion a'r Mentrau Iaith. Mae'r deunydd a gynhyrchwyd gan y gweisg yn hanfodol er mwyn gwaith pob un o'r rhain, gyda llenyddiaeth yn rhan annatod o holl weithgarwch diwylliannol Cymru.

Ni ellid cynnal gwyliau cerdd dant na pharti adrodd heb farddoniaeth, ni all dysgu'r Gymraeg heb nofelau, ni ellid cynnal sgyrsiau deallus am wleidyddiaeth, hanes a chymdeithas Cymru heb lyfrau. Mae bygythiad i'r diwydiant cyhoeddi yn fygythiad i hyn oll.

Yng nghyd-destun deddfwriaeth Cymru mae toriad o'r fath yn mynd yn groes i amcan y Miliwn o siaradwyr, yn ogystal â deddf cenedlaethau'r dyfodol. Mae llyfrau yn rhan annatod o'n tirwedd ddiwylliannol, sgil effaith toriad o'r fath yn yr hir dymor yw tirwedd lwm, gan lesteirio potensial creadigol, gwleidyddol, diwylliannol a chymdeithasol Cymru.

Galwn arnoch chi i ail ystyried y toriadau hyn. Mae diwydiant cyhoeddi Cymru mewn sefyllfa fregus ar ôl blynyddoedd o gwtogi mewn termau real. Gan y wladwriaeth ddyletswydd amddiffyn diwydiant sy'n addysgu ac yn peri'r fath les cymdeithasol drwy gynhyrchu llyfrau o safon. Ni ellid disgwyl i'r farchnad rydd gefnogi llyfrau mewn iaith leiafrifol.

Gyda diolch

Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru ar ran Cyhoeddwyr llyfrau a deunyddiau darllen Cymraeg